# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd |
| Dyddiad: | Dydd Iau, 28 Chwefror 2013 |
| Amser: | 09:00 - 14:35 |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_28_02_2013&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

**Aelodau'r Cynulliad:**

Mark Drakeford (Cadeirydd)
Mick Antoniw
Rebecca Evans
Vaughan Gething
William Graham
Elin Jones
Darren Millar
Lynne Neagle
Gwyn R Price
Jenny Rathbone
Lindsay Whittle
Kirsty Williams

**Tystion:**

**Staff y Pwyllgor:**

Steve George (Clerc)
Olga Lewis (Dirprwy Glerc)
Sarah Beasley (Clerc)
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)
Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)
Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)
Robin Wilkinson (Ymchwilydd)
Victoria Paris (Ymchwilydd)

TRAWSGRIFIAD
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. Ystyried y dull o weithio ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Plant a Theuluoedd

2.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried ei ddull o weithio ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Plant a Theuluoedd, a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ofyn am wybodaeth bellach.

## 3. Papurau i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol; y llythyrau a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Bil Trawsblannu Dynol (Cymru); y llythyr a gafwyd gan Ddeoniaeth Cymru mewn perthynas â'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ionawr; a'r llythyr a gafwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r camau gweithredu a ddeilliodd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2012.

## 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5. Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru): Cyfnod 1 - Ystyried yr adroddiad terfynol

5.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod yr eitem hon mewn sesiwn breifat.

## 6. Bil Trawsblannu Dynol (Cymru): Cyfnod 1 - Ystyried y prif faterion

6.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y prif faterion a gododd yn ystod y broses o graffu ar Fil Trawsblannu Dynol (Cymru).